Adnabod awdur

Merch ffarm o Ben Llŷn ydw i. Sbel fach yn ôl, mi ddois i a Geraint, fy ngŵr, a'r plant - Math, Casia, Efa a Sabel - yn ôl i fyw yma, i'm hen gartre braf i. Dydw i ddim yn awdur llawn-amser. Yn ogystal â golchi, gwneud bwyd a glanhau (ryw ychydig bach!), mi fydda i'n gwneud gwaith golygu a chyfieithu ac ati. Ond sgrifennu ydi'r gwaith mwya cyffrous - a'r gwaith caleta hefyd - o'r cwbl i gyd.

Lluniau gan Dewi Wyn

Meinir Pierce Jones

adnabod awdur

Mae sgrifennu wedi bod yn elfen arbennig yn fy mywyd i erioed - fel ffos o ddŵr sgleiniog yn llifo ac yn cordeddu. Weithiau, dim ond diferion gloyw sy 'na yn y ffos, ac ambell dro mi fydd yn mynd o'r golwg - a dim hanes ohoni. Ond mi ddaw i'r fei eto yn ei hamser.

Fel hyn y bydda i'n meddwl am sgrifennu stori i blant. Rhaid cael stori sy'n cydio fel crafangau craen. Rhaid cael gwên a jôc a chwerthin, fel cyraints mewn sboti-dic. Rhaid cael cymeriadau sy'n bwysicach ac yn fwy diddorol na neb byw bedyddiol - nes cyrraedd y diwedd un. Ond haws dweud na gwneud - o bosib!

Erstalwm, cyn i ni gael y plant, mi fyddwn i bob amser yn sgrifennu efo beiro neu bensil, ac mi fyddwn i'n sgrifennu pan ddeuai syniad neu pan fyddwn i yn yr hwyl - wrth y tân yn y parlwr neu yn y gegin ben bore, neu yn fy ngwely, hyd yn oed! Ond erbyn hyn dwi'n gorfod cipio'r cyfle i sgrifennu pan ddaw o, a dim lol. Dwi'n sgrifennu'n syth ar sgrin y cyfrifiadur yn y stydi - gan yfed mygeidiau o goffi fel triog. Ond mi fydd gen i bob amser syniadau a chynllun a nodiadau bras wrth fy mhenelin cyn tanio'r peiriant - ac efo beiro y bydda i wedi sgrifennu'r rheini wrth gwrs!

Meinir P. Jones

llyfrau gan Meinir Pierce Jones

MODRYB LANAF LERPWL
1991 £3.25



IECHYD DA, MODRYB!
1994 £3.95
Gwasg Gomer
Dyma ddau lyfr doniol, llawn hwyl yn rhoi hanes teulu'r Hen Reithordy. Does dim heddwch i gael i'r tri phlentyn a'u rhieni pan ddaw Modryb i aros. Y trafferth yn *Modryb Lanaf Lerpwl* yw ei bod yn ffanatig am lanhau ac yn gwneud bywyd pawb yn annioddefol. Yn *Iechyd da, Modryb!* cadw'n heini a bwyta'n iach sy'n mynd â bryd Modryb ac mae'n ben-derfynol mai teulu'r Rheithordy fydd yn ennill cystadleuaeth teulu iachaf Cymru.

LOTI (Cyfres Corryn)
1989 £2.95
Gwasg Gomer
Roedd Loti yn ysu am gael bod yn frenhines y carnifal neu yn un o'r ledis-in-waitin', ond doedd hynny ddim yn bosib a bu'n rhaid iddi fodloni ar wisgo i fyny fel nionyn!

STRAEON MÔN I FYNWY
1995 £2 *Cynnal*
Cyfres o straeon byrion gan awduron amrywiol, wedi eu hysgrifennu mewn gwahanol dafodieithoedd. Ysgrifennodd *Y Dwda* yn nhafodiaith Ynys Môn.





CAMPIAITH 1 a **CAMPIAITH 2**
1997 £3.50 yr un. *Gwasg Taf*
Gwerslyfrau i blant CA2 iaith gyntaf i'w defnyddio yn y dosbarth. Ceir tasgau i annog gwahanol fathau o ysgrifennu a thasgau i ddatblygu sgiliau amrywiol.

LLYFRAU WEDI EU HADDASU

LLYFRAU LLOERIG
Y FFLIT-FFLAT a **Y FFERWR FFERAU** gan Rose Impey 1996 £3.25 yr un *Gwasg Gomer*

PEN TYMOR
1986 £2.75 *Gwasg Gomer*
Nofel i blant yn eu harddegau cynnar.

I'R ARDDEGAU
CYMYSGU TEULU gan Joan Lingard 1990 £3.50 *Gwasg Gomer*